Comisiwn
Bevan
Commission

# Carfan 9 Esiamplwyr Bevan

## Canllaw ar gyfer cyflwyno cais

Dyddiad cau cyflwyno ceisiadau:14eg Gorffennaf 2024

## Beth yw Esiamplwyr Bevan?

Gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal yw Esiamplwyr Bevan ledled Cymru sy'n cael eu cefnogi gan Gomisiwn Bevan i ddatblygu, i brofi a gwerthuso eu syniadau arloesol eu hunain dros gyfnod o 12 mis. Gallai'r syniadau gynnwys (ymysg pethau eraill); cynhyrchion arloesol, prosesau a gwasanaethau, ffyrdd newydd o weithio, modelau neu ymyriadau newydd, neu ymagweddau at ddatblygu sgiliau newydd ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.

## Beth yw Rhaglen Esiamplwyr Bevan?

Mae rhaglen Esiamplwyr Comisiwn Bevan yn cefnogi gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal i gymryd syniadau arloesol a gochelgar a'u trosi'n ymarfer. Mae ein hymagwedd 'profi a rhoi cynnig arni' dros 12 mis yn cynnig hyfforddiant a mentora i gyfeirio meddwl a datblygu sgiliau fel bod ein Hesiamplwyr yn gallu trawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal yn fewnol, gan gael effeithiau cadarnhaol ar feysydd gan gynnwys gofal cleifion, profiadau byw, ansawdd a diogelwch, canlyniadau iechyd ac effeithlonrwydd gwasanaeth. Hyd yn hyn, mae'r rhaglen wedi cefnogi dros 350 o brosiectau arloesol a bellach yn galw am ei nawfed garfan.

## Galwad am Geisiadau eleni:

Enw galwad Rhaglen Esiamplwyr Bevan eleni yw **Achieving Change Together** ac mae'n herio ymgeiswyr i ddatblygu **atebion arloesol** i oresgyn problemau a wynebir ar hyn o bryd wrth gyflwyno gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru. Caiff ceisiadau ar gyfer y rhaglen eleni eu hannog i feddwl am y **themâu canlynol**, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a GIG Cymru:

- Cefnogi atal, diagnosisau buan a thriniaethau (yn ymwneud yn benodol â Chanser)
- Mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl ac iechyd menywod
- Trawsnewid gofal ar gyfer y rheiny sydd â chyflyrau tymor hir (er enghraifft Diabetes a Chlefyd Cardiofasgwlaidd).
- Cefnogi pobl hŷn, eiddilwch ac atal cwympo

Y Sylfeini ar gyfer Model Iechyd a Gofal y Dyfydol yng Nghymru gan Comisiwn Bevan (mwy o wybodaeth yma: The Foundations for the Future Model of Health and Care in Wales):

- Datblygu pobl a chymunedau gwydn a dyfeisgar
- Lleihau gwastraff ar draws iechyd a gofal cymdeithasol
- Integreiddio gofal a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau

- Defnyddio data a thechnoleg i gefnogi newid systemau

Byddem hefyd yn croesawu ceisiadau eraill sy'n gyson â meysydd blaenoriaeth eich sefydliad.

## Gofynion Ychwanegol Cyflwyno Ceisiadau i'r Rhaglen:

Yn ogystal â chyd-fynd â themâu craidd y rhaglen uchod, disgwylir i ymgeiswyr hefyd ddangos sut maen nhw'n bodloni meini prawf ychwanegol y rhaglen, a amlinellir isod:

- Cyd-fynd ag egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus (sydd ar gael yma)
- Dangos angen clir am newid yn unol â themâu'r rhaglen
- Cynigion prosiect sy'n arloesol eu natur (newydd i Gymru)
- Cynlluniau prosiect y gellir eu cyflawni o fewn 12 mis y rhaglen
- Ymagweddau ar y cyd sy'n cynnwys gweithio mewn partneriaeth ar lefelau lleol/rhanbarthol/cenedlaethol
- Strategaethau clir ar gyfer rhannu dysgu â byrddau iechyd/ymddiriedolaethau/awdurdodau lleol
- Syniadau sydd â'r potensial i'w datblygu a'u mabwysiadu ledled Cymru

## Pwy sy'n gallu cyflwyno cais i'r rhaglen?

Mae cyflwyno ceisiadau i Raglen Esiamplwyr Bevan ar agor i unrhyw un sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ar draws **GIG Cymru, Awdurdodau Lleol a'r Sector Gwirfoddol**. Mae partneriaethau ehangach ar draws parthau eraill hefyd yn cael eu croesawu, ar yr amod eu bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid a nodwyd.

## Pa gymorth y mae Rhaglen Esiamplwyr Bevan yn ei gynnig i gyfranogwyr?

Mae Rhaglen Esiamplwyr Bevan yn rhoi pecyn cynhwysfawr o hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol iechyd a gofal er mwyn iddynt roi cynnig ar eu syniadau a'u profi. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyfres unigryw o ddigwyddiadau rhwydweithio a gweithdai datblygu sgiliau
- Amser a lle i ddatblygu a phrofi ffyrdd newydd o weithio
- Mentora arbenigol gan uwch-arweinwyr ar draws y maes iechyd a gofal
- Mynediad at gyngor arbenigol gan arweinwyr o'r radd flaenaf drwy Gomisiynwyr Bevan
- Mynediad at Wythnos Dysgu Dwys Arloesi Comisiwn Bevan
- Sesiynau unigol a chymorth gwerthuso gan Gomisiwn Bevan
- Offer, dulliau ac adnoddau unigryw a fydd yn cefnogi datblygiad prosiectau
- Rhwydweithiau dysgu gan gymheiriaid a chyn-fyfyrwyr enghreifftiol i herio, rhannu a phrofi syniadau

- Platfform cenedlaethol i rannu a chyfleu eu gwaith yn genedlaethol ac yn rhyngwladol

## Sut i gyflwyno cais i Raglen Esiamplwyr Bevan:

I gyflwyno cais am Garfan 9 Rhaglen Esiamplwyr Bevan, caiff darpar ymgeiswyr eu hannog i ddilyn y camau a nodir isod. Rhaid i'r holl geisiadau terfynol i'r rhaglen gael eu cyflwyno gan ddefnyddio'r ffurflen cyflwyno cais ar-lein, sydd ar gael ar dudalen we yr alwad ar gyfer Carfan 9.

Y Broses Cyflwyno Cais:

- Ystyriwch y cwestiynau a nodir ar ffurflen templed y cais yma.
- Sicrhewch fod eich syniad yn cyd-fynd ag un neu fwy o themâu craidd y rhaglen
- Sicrhewch fod eich syniad yn cyd-fynd ag un neu fwy o'r egwyddorion gofal iechyd darbodus
- Cysylltwch ag Arweinydd Arloesi eich Sefydliad (neu gyfwerth) i drafod eich prosiect â nhw.  Mae manylion cyswllt arweinwyr arloesi byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon.
- Sicrhewch gefnogaeth eich rheolwr llinell a'ch arweinydd arloesi lleol
- Ymunwch â'n sesiynau briffio ar-lein (isod) a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych
- Cwblhewch y ffurflen gais ar-lein a geir ar dudalen we galwad Carfan 9.
- Yn dilyn hyn, bydd canlyniadau'r broses ddethol yn cael eu cyfleu i'r holl ymgeiswyr

## Dyddiadau a Cherrig Milltir Allweddol y Rhaglen:

Mae dyddiadau allweddol ar gyfer proses cyflwyno cais am Garfan 9 Rhaglen Esiamplwyr Bevan fel a ganlyn:  Ar yr adeg hon, cofiwch bydd y **rhaglen yn dechrau ar 16eg o Fedi 2024.** Felly, caiff ymgeiswyr eu hannog i sicrhau bod y dyddiad hwn wedi'i nodi'n glir yn eu dyddiadur wrth gyflwyno'r cais.

| **Gweithgareddau allweddol:** | **Dyddiad:** |
|---|---|
| **Galwad am Geisiadau'n Agor** | 08/05/24 |
| **Sesiwn Friffio 1** | 20/05/24 |
| **Sesiwn Friffio 2** | 20/06/24 |
| **Yr alwad am geisiadau'n cau** | 11.59pm ar 15/07/24 |
| **Rhaglen yn dechrau** | 16/09/2024 |

## Sesiynau Briffio Rhaglen Esiamplwyr Bevan:

I gefnogi ymgeiswyr drwy gydol y broses ymgeisio, cynhelir dwy sesiwn friffio ar yr amser a'r dyddiadau a nodir isod. Mae hwn yn gyfle i ymgeiswyr ddysgu mwy am Gomisiwn Bevan a Rhaglen Esiamplwyr Bevan, yn ogystal â rhoi cyfle i ofyn cwestiynau sydd gennych am eich cais a'r broses ymgeisio.

- Sesiwn friffio 1: 20 Mai 2024 1.00pm – 2.00pm

- Sesiwn friffio 2: 20 Mehefin 2024, 11.00am – 12.00pm

Cofrestrwch ar gyfer y sesiynau briffio gan ddefnyddio'r dolenni a nodir uchod neu'r rhai ar dudalen we yr alwad.

## Disgwyliadau:

Mae adran ganlynol y ddogfen hon yn amlinellu disgwyliadau'r esiamplwr o Gomisiwn Bevan a'u sefydliad. Mae hefyd yn amlinellu disgwyliadau Comisiwn Bevan o Esiamplwyr Bevan sy'n llwyddiannus yn eu ceisiadau ar gyfer y rhaglen.

### Dylai'r Esiamplwyr ddisgwyl i Gomisiwn Bevan ddarparu'r canlynol:

- Rhaglen sy'n datblygu gwybodaeth, sgiliau ac arweinyddiaeth
- Digwyddiadau rhwydweithio unigryw ac annog rhwydweithiau cefnogi cymheiriaid
- Hyfforddiant a mentora, cymorth i ddatrys materion cyflawni
- Help i feithrin cysylltiadau ag arweinwyr arbenigol ym maes iechyd a gofal
- Rhoi platfform i hyrwyddo gwaith yr Esiamplwyr yn eang a rhoi cyhoeddusrwydd iddo
- Gweithio gyda chi/eich sefydliad i nodi Noddwr Gweithredol os nad oes gennych un

### Dylai Esiamplwyr ddisgwyl i'w sefydliadau wneud y canlynol:

- Eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau, a rhoi amser iddyn nhw wneud hynny
- Bod yn ymrwymedig i'w cefnogi nhw i gyflawni eu prosiect a rhoi'r adnoddau priodol iddynt wneud hynny
- Eu helpu i oresgyn heriau neu rwystrau i gyflawni'n fewnol.

### Bydd Comisiwn Bevan yn disgwyl i Esiamplwyr wneud y canlynol:

- Ymrwymo'n llwyr i gymryd rhan mewn digwyddiadau a rhwydweithio (hyd at 6 niwrnod) fesul rhaglen
- Hyrwyddo agenda Iechyd a Gofal Darbodus
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'w gwaith fel Esiamplwyr Bevan

- Rhoi adborth a gwerthuso effaith a chanlyniadau eu gwaith
- Hyrwyddo Comisiwn Bevan, y rhaglen Esiamplwyr ac arlosedd
- Rhoi'r diweddaraf a llunio adroddiadau i Gomisiwn Bevan a'ch sefydliad pan fo angen
- Hysbysu gwaith Comisiwn Bevan a'ch sefydliad.

## Manylion Cyswllt Arweinwyr Arloesi:

Bydd angen cymeradwyaeth ar yr **holl** geisiadau **cyn cyflwyno** i'w harweinydd arloesi lleol neu gyfwerth ar ran eu sefydliad. Unwaith bydd y cais wedi'i gyflwyno, bydd **Comisiwn Bevan hefyd yn cadarnhau cymorth sefydliadol** gyda'ch arweinydd arloesi lleol neu gyfwerth. Felly argymhellir yn gryf eich bod yn trafod eich cais gyda'ch arweinydd arloesi lleol cyn ei gyflwyno drwy'r ffurflen ar-lein. **Mae manylion cyswllt arweinwyr arloesi ar gael isod:**

| **Sefydliad:** | **Arweinydd:** | **Gwybodaeth Gyswllt yr Arweinydd:** |
|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Dale Evans | dale.evans3@wales.nhs.uk |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Rob Ellis /J ulie Ward-Jones | Robert.ellis2@wales.nhs.uk / julie.wardjones@wales.nhs.uk |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Dr Mark Briggs / Zoe Hilton | mark.briggs@wales.nhs.uk / zoe.hilton@wales.ac.uk |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | Dr Tom Powell / Lauren Ware | tom.powell2@wales.nhs.uk / Lauren.Ware@wales.nhs.uk |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Elin Brock/ Barry Morgan | elin.brock@wales.nhs.uk / barry.morgan@wales.nhs.uk |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Christine Morrell | christine.morrell@wales.nhs.uk |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Amanda Edwards / Howard Cooper | amanda.edwards9@wales.nhs.uk / howard.cooper@wales.nhs.uk |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | Mark Griffiths | mark.griffiths5@wales.nhs.uk |
| VELINDRE | Jennet Holmes | jennet.holmes@wales.nhs.uk |
| WAST | Dr Nigel Rees | nigel.rees5@wales.nhs.uk |
| Iechyd a Gofal Digidol Cymru | Saddaf Shaheen | Saddaf.Shaheen2@wales.nhs.uk |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | Stephanie Griffith/Lisa Trigg | Stephanie.Griffith@SocialCare.Wales / Lisa.Trigg@SocialCare.Wales |

## Gwybodaeth Ychwanegol:

Os ydych yn llwyddiannus, bydd ambell adran o'ch ffurflen gais yn cael eu defnyddio i boblogi tudalen we eich prosiect ar ddechrau'r rhaglen. Bydd hyn yn galluogi Comisiwn Bevan i gyfleu'r prosiectau llwyddiannus i randdeiliaid â diddordeb ar draws Cymru o ddechrau'r rhaglen.

## Cwestiynau Cyffredin:

**1. Pwy sy'n gallu cyflwyno cais i raglen Esiamplwyr Bevan?**

Mae Rhaglen Esiamplwyr Bevan ar agor i unrhyw un sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ar draws GIG Cymru, Awdurdodau Lleol a'r Sector Gwirfoddol.

**2. All fy nghais gynnwys mwy nag un person/sefydliad?**

Gall, mae prosiectau ar y cyd yn cael eu hannog yn gryf, ond rhaid i'r prosiect gael ei arwain gan un o'r rhanddeiliaid a nodir uchod.

**3. Sut bydd cais fy mhrosiect yn cael ei asesu?**

Bydd ceisiadau i raglen Esiamplwyr Bevan yn cael eu hasesu gan banel dethol o arbenigwyr yn ôl y rhaglen a'r meini prawf penodol a nodir yn y ffurflen gais a'r canllawiau.

**4. Pa mor hir yw'r rhaglen a phryd bydd hi'n dechrau?**

Bydd y rhaglen yn para am 12 mis a bydd hi'n dechrau ym mis Medi 2024. Disgwylir i'r holl brosiectau gael eu cwblhau o fewn 12 mis y rhaglen gan gynnwys gwerthuso ei effaith.

**5.Faint o amser y mae'n rhaid i mi ei ymrwymo i'r rhaglen?**

Rhaid i chi ymrwymo 6 niwrnod yn ystod y rhaglen 12 mis i fynd i ddigwyddiadau gorfodol y rhwydwaith. Mae gweithgareddau gweithdy eraill yn opsiynol.

**6.Pa gymorth y byddaf yn ei gael wrth gymryd rhan yn rhaglen Esiamplwyr Bevan?**

Fel a nodwyd eisoes, nod Rhaglen Esiamplwyr Bevan yw cynnig pecyn cynhwysfawr o gymorth i gyfranogwyr, gan gynnwys diwrnodau rhwydweithio, gweithdai, mentora, amser a lle i arloesi yn ogystal â chyfleoedd i arddangos prosiectau ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

**7.A oes unrhyw gyllid yn gysylltiedig â Rhaglen Esiamplwyr Bevan?**

Nid oes cyllid penodol yn cael ei ddyrannu drwy raglen Esiamplwyr Bevan, ond byddwn yn gwneud ein gorau i amlygu cyfleoedd cyllido posib i gyfranogwyr.

**8. Beth yw manteision cymryd rhan yn rhaglen Esiamplwyr Bevan?**

Mae bod yn rhan o raglen Esiamplwyr Bevan yn gysylltiedig â nifer o fuddion i gyfranogwyr a'u sefydliadau fel ei gilydd. Mae hyn yn cynnwys cyfres o weithgareddau datblygu gwybodaeth a sgiliau, mynediad at offer a dulliau i gefnogi datblygu prosiectau a mynediad at arbenigwyr blaenllaw drwy fentoriaid a chomisiynwyr Bevan. Mae'r rhaglen hefyd yn rhoi amser a lle i gyfranogwyr arloesi ochr yn ochr â charfan ehangach o arloeswyr, yn ogystal â chredadwyedd i gefnogi eu prosiectau drwy gysylltiad â brand Esiamplwyr Bevan.

**9.Pa mor arloesol y mae angen i'm prosiect fod?**

Rhaid i brosiectau ddangos eu bod yn newydd i Gymru a rhaid darparu cyfiawnhad priodol a thystiolaeth ategol i gefnogi hyn.

**10. Pwy fydd yn cefnogi fy mhrosiect yn fy sefydliad?**

Eich arweinydd arloesi lleol (cyfeiriwch at y dudalen flaenorol) fydd eich pwynt cyswllt cyntaf yn eich sefydliad, a byddwch hefyd yn nodi noddwyr gweithredol yn eich sefydliad neu byddwch yn cael eich rhoi mewn cyswllt ag un.

Os oes gennych gwestiynau am gyflwyno cais i Raglen Esiamplwyr Bevan, rydym yn argymell mynd i un o'r sesiynau briffio ac os oes gennych ymholiadau pellach, e-bostiwch Helen Williams, Swyddog Prosiect, ar helen.e.williams@abertawe.ac.uk neu Dr Tom Howson, Arweinydd Arloesi Comisiwn Bevan T.e.howson@abertawe.ac.uk